

Paratoi ar gyfer E-gyflwyno 2020

Bwriedir y wybodaeth yn y cylchlythyr hwn ar gyfer swyddogion arholiadau ac athrawon y pynciau CBAC/Eduqas dynodedig canlynol:

Lefel	Pwnc	Asesir yn Fewnol neu'n Allanol
TGAU a TAG	Cyfrifiadureg	Mewnol
TGAU a TAG	Drama	Mewnol
TGAU	Saesneg Iaith (Manyleb CBAC yn unig)	Mewnol
TGAU a TAG	Astudiaethau Ffilm Eduqas (wedi'i ddynodi yng Nghymru)	Mewnol
TGAU	TGCh	Mewnol
TGAU a TAG	Astudio'r Cyfryngau	Mewnol
TGAU a TAG	ITM (Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg – i'w cynnal gan y ganolfan yn unig)	Allanol
TGAU a TAG	Cerddoriaeth	Mewnol (TGAU) Allanol (TAG)
TGAU	Cymraeg Iaith Gyntaf	Mewnol
TGAU	Cymraeg Ail Iaith	Mewnol
TGAU	Llenyddiaeth Gymraeg Uned 3	Mewnol
Galwedigaethol	Cyfathrebu Busnes Byd-eang (Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg)	Mewnol ac Allanol
Lefel Mynediad	Saesneg	Mewnol
Lefel 3	Project Estynedig	Mewnol
Bagloriaeth Cymru	Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen CA4	Mewnol

Cyflwyno gwaith trwy e-gyflwyno

Mae'r broses o gyflwyno gwaith ar-lein yn syml ac yn hawdd. Cyfeiriwch at y manylebau pwnc am fanylion y gwaith i'w gyflwyno. Mae'r fersiynau diweddaraf i'w gweld ar ein gwefan: www.cbac.co.uk

Byddwn yma i'ch helpu drwy gydol y broses. Yn ogystal, rydym wedi datblygu canllaw defnyddiol a thiworial fideo sydd i'w gweld ar ein tudalennau gwe e-gyflwyno penodol. Ewch i https://www.cbac.co.uk/teachers/e-submission/?language_id=2

Noder, nid yw'r broses gymedroli'n cychwyn tan ar ôl y dyddiad cau cyflwyno. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am waith ymgeiswyr ychwanegol i **gynorthwyo proses gymedroli deg**. Mae'n hanfodol felly bod yr holl waith yn barod gennych i'w lwytho i fyny os oes angen.

Beth ddylwn i ei wneud nawr?

Athrawon a Swyddogion Arholiadau

Wrth i chi baratoi i gyflwyno gwaith yn electronig, rydym yn argymhell eich bod yn cymryd y camau canlynol:

1. Cyfeiriwch at ganllaw pynciau E-gyflwyno 2019-20 am wybodaeth am y mathau o ffeiliau y gallwch eu llwytho i fyny. Gallwch ddod o hyd i hwn trwy ddewis enw'r pwnc yn y rhestr uchod neu gallwch weld set gyflawn o'r holl ofynion pwnc [yma](#).

2. I gyflymu'r broses o lwytho gwaith i fyny ar-lein, rydym yn cynghori eich bod yn cadw gwaith ar y fformat cywir wrth ei greu, er mwyn osgoi gorfod trosi ffeiliau yn ddiweddarach. Lle y bo'n bosibl, dylid annog ymgeiswyr i weithio'n electronig, neu os bydd angen sganio dogfennau, gwnewch hyn wrth fynd ymlaen, gan ddefnyddio enwau priodol ar y ffeiliau wrth gadw gwaith. Mae nifer o apiau ar gael ar gyfer ffonau clyfar a thabledi a fydd yn gwneud hyn yn hawdd ac yn creu ffeiliau pdf.

Noder, dim ond llythrennau a rhifau y gellir eu cynnwys yn enwau'r ffeiliau, heb unrhywnodau arbennig e.e. ?,! /\$. Dylech sicrhau bod ffeiliau'n cael eu henwi fel bod modd eu hadnabod yn hawdd, drwy gynnwys enwau neu rifau ymgeiswyr a theitl y dasg.

3. Wrth i chi lenwi gwaith papur a ffurflenni, sicrhewch fod popeth wedi'i lofnodi yn ôl yr angen. Gall gwaith sy'n cael ei gyflwyno heb y dilysiad cywir arwain at roi marc o 0 i ymgeisydd. Gellir llwytho pob ffurflen i lawr o dudalennau pwnc ein gwefannau, neu o'r Wefan Ddiogel ar gyfer pynciau Bagloriaeth Cymru.

4. Gwnewch yn siŵr bod yr holl ffeiliau'n gywir a chyflawn, gan gynnwys cadarnhau y bydd ffeiliau sain a fideo yn chwarae hyd y diwedd, a gwnewch gopi wrth gefn o bopeth rhag ofn y bydd unrhyw broblemau o ran y cyfrifiadur neu'r rhwydwaith.

Swyddogion Arholiadau yn unig

1. Anfonwch y cylchlythyr hwn ymlaen at yr aelod(au) perthnasol o staff yn eich canolfan sy'n gyfrifol am y pynciau a restrir uchod.

2. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu logio i mewn i wefan [Surpass](#). Mae botwm i'w glicio os oes angen i chi ailosod eich cyfrinair. Bydd angen i chi allu mewngofnodi er mwyn cael y codau allwedd ar gyfer pob ymgeisydd y mae eu hangen i gyflwyno gwaith yn electronig. Ar gyfer unedau a chydannau a asesir yn fewnol, bydd y rhain ar gael ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n rhan o'r sampl o fewn 48 o oriau gwaith ar ôl cyflwyno marciau ar IAMIS a gellir eu defnyddio ar unwaith.

Beth yw'r amserlen ar gyfer llwytho gwaith i fyny?

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r dyddiadau allweddol a'r prosesau sy'n gysylltiedig ag E-Gyflwyno

Dyddiad	Proses
21 Chwefror	Y dyddiad cau i gyflwyno cofrestrïadau ar gyfer pob pwnc
10 Mawrth	System IAMIS (cyflwyno marciau) ar gael ar gyfer unedau a chhydrannau TGAU a asesir yn fewnol.
20 Mawrth	Codau allwedd ar gael i gyflwyno unedau a chhydrannau TAG UG a Safon Uwch a asesir yn allanol.
1 Ebrill	System IAMIS (cyflwyno marciau) ar gael ar gyfer unedau a chhydrannau TAG UG a Safon Uwch a asesir yn fewnol
24 Ebrill	IAMIS (cyflwyno marciau) ar gael ar gyfer Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen.
1 Mai	Y diwrnod olaf i fewnbynnu marciau asesiadau mewnol TGAU ar IAMIS a chaniatáu ar gyfer creu codau allwedd cyn y dyddiad cau cyflwyno
5 Mai	Y dyddiad cau ar gyfer llwytho gwaith gofynnol ymgeiswyr TGAU i fyny
5 Mai	Y diwrnod olaf i fewnbynnu marciau asesiadau mewnol Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen ar IAMIS i ganiatáu ar gyfer derbyn codau allwedd cyn y dyddiad cau cyflwyno.
7 Mai	IAMIS (cyflwyno marciau) ar gael ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch
7 Mai	Y dyddiad cau ar gyfer llwytho gwaith gofynnol ymgeiswyr Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen i fyny.
13 Mai	Y diwrnod olaf i fewnbynnu marciau asesiadau mewnol TAG UG a Safon Uwch ar IAMIS i ganiatáu ar gyfer derbyn codau allwedd cyn y dyddiad cau cyflwyno.
15 Mai	Y dyddiad cau ar gyfer llwytho gwaith gofynnol ymgeiswyr TAG UG a Safon Uwch i fyny
20 Mai	Y diwrnod olaf i fewnbynnu marciau asesiadau mewnol Bagloriaeth Cymru Uwch ar IAMIS a chaniatáu ar gyfer derbyn codau allwedd cyn y dyddiad cau cyflwyno.
22 Mai	Y dyddiad cau ar gyfer llwytho gwaith angenrheidiol ymgeiswyr Bagloriaeth Cymru Uwch i fyny.

Mae rhestr wirio wedi'i chreu i ganolfannau ei defnyddio a'i rhannu â'u hathrawon yn ystod y broses e-gyflwyno a gellir ei gweld ar [dudalen E-gyflwyno CBAC](#). Mae cyswllt at y rhestr wirio hefyd ar dudalen we pob un o'r pynciau perthnasol.

Am ymholiadau yn ymwneud â'r broses E-Gyflwyno, ffoniwch ein llinell gymorth benodol newydd – 029 2240 4310 neu anfonwch e-bost at e-gyflwyno@cbac.co.uk